



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Cydraddoldeb Rhywiol: Dysgu Gwersi gan Wledydd Nordig

**Adolygiad o
Gydraddoldeb Rhywiol
Cam Dau**

Emma Taylor-Collins a Suzanna Nesom

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru,

Prifysgol Caerdydd

Medi 2019

Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella trefniadau llunio polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus drwy gynorthwyo gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu a chymhwyso tystiolaeth annibynnol gadarn ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'r Ganolfan yn cydweithio ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi eraill er mwyn syntheseiddio a chrynhai tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadaeth o'r newydd ynglŷn â sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Helpu Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi, yn ogystal â chael gafael ar dystiolaeth ac arbenigedd o'r fath a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol, yn ogystal â chynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o'r fath;
- Defnyddio'i gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r ffordd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i wella gallu ymchwilwyr i wneud gwaith ymchwil effeithiol sy'n berthnasol i bolisi.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk

Arianwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r Brifysgol yn sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosibl ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd

Cynnwys

Crynodeb	5
Cyflwyniad	6
Beth yw cydraddoldeb rhywiol a sut mae gwledydd Nordig yn ymdrin ag ef?	8
Materion deddfwriaethol	8
Nid yw ymdrechion i sicrhau cydraddoldeb rhywiol byth yn dod i ben	9
Mae'n bosibl na fydd modd atgynhyrchu polisiau ac arferion mewn gwledydd Nordig mewn cyd-destunau eraill	9
Croestoriadedd	10
Pa bolisiau ac arferion i brif ffrydio rhywedd a fabwysiadwyd mewn gwledydd Nordig?	10
Newid diwylliant	11
Sefydlu perchnogaeth	12
Asesiadau Effaith ar Sail Rhyw	13
Meithrin gallu a hyfforddi	14
Gosod nodau	15
Sut mae gwledydd Nordig wedi gweithredu cyllidebu ar sail rhyw a pha ddulliau sydd wedi gweithio orau?	16
Mwy na 'chyllidebau pinc a glas'	16
Llywodraethiant	17
Cymdeithas Sifil	17
Sut mae gwledydd Nordig wedi mesur cynnydd ar sicrhau cydraddoldeb rhywiol?	18
Tystiolaeth	18
Gallu dadansoddol	19

Pa wersi y gall Cymru eu dysgu gan y gwledydd Nordig?	19
Cyfeiriadau	20
Atodiad 1: Cyfranogwyr	23
Atodiad 2: Sylwedyddion	24

Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi trafodaethau a gafwyd mewn cyfnewidfa wybodaeth cydraddoldeb rhywiol a hwyluswyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, rhwng arbenigwyr o wledydd Nordig, gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru, a Chwarae Teg.
- Mae gan Gymru ddeddfwriaeth flaengar sy'n sylfaen dda ar gyfer gweithio tuag at gydraddoldeb rhywiol.
- Nid oes 'ateb sydyn' i sicrhau cydraddoldeb rhywiol, na glasbrint ar gyfer llwyddiant; mae golwg wahanol arno mewn gwahanol wledydd, ac mae'n waith sy'n parhau drwy'r amser.
- Mae dull croestoriadol sy'n ystyried sut mae rhywedd yn rhyngweithio â ffactorau pwysig eraill fel hil a dosbarth yn hanfodol i sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Mae gwledydd Nordig yn ceisio cynnwys persbectif croestoriadol yn eu dulliau presennol; mae cyfle gan Lywodraeth Cymru i gynnwys croestoriadedd yn ei gwaith at y dyfodol.
- Mae prif ffrydio rhywedd yn fecanwaith allweddol i sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Mae'n golygu ystyried rhywedd wrth ddatblygu pob polisi yn ogystal â llunio polisiâu penodol i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Mae'n bosibl mai prif ffrydio rhywedd mewn polisiâu newydd yn hytrach nag mewn polisiâu presennol fydd y man cychwyn mwyaf effeithiol i Lywodraeth Cymru.
- Mae newid diwylliant, sefydlu perchnogaeth wleidyddol, asesu effeithiau ar sail rhyw, a meithrin gallu i gyd yn angenrheidiol i brif ffrydio rhywedd yn llwyddiannus.
- Mae gosod nodau clir gyda dangosyddion, a mesur cynnydd ar eu cyflawni, yn hanfodol i wneud cynnydd ar gydraddoldeb rhywiol. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried gosod nodau cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol ar gyfer sicrhau cydraddoldeb rhywiol.
- Mae cyllidebu ar sail rhyw yn sbarduno prif ffrydio rhywedd, ac yn golygu integreiddio persbectif rhywedd yn y broses cyllidebu.
- Mae angen tystiolaeth ddibynadwy hefyd i fesur cynnydd, fel data wedi'u dadansoddi ar sail rhywedd, hil a dosbarth. Mae angen gallu dadansoddol i ddehongli'r dystiolaeth hon hefyd.
- Nid cyfrifoldeb i lywodraeth yn unig yw sicrhau cydraddoldeb rhywiol – mae angen cynnwys gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, busnesau, y cyfryngau a chymdeithas yn gyffredinol hefyd.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol eisoes ar geisio gwella cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, ac mae hyn yn destun dathlu.

Cyflwyniad

Mae Gweinidogion wedi gofyn i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ymgymryd â thair eitem o waith a fydd yn darparu tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol ar gyfer yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol a gomisiynwyd gan y Prif Weinidog ar y pryd yn 2018:

- Adolygiad o bolisïau ac arferion cydraddoldeb rhywiol mewn gwledydd tramor;
- Gweithdy arbenigwyr i edrych ar y gwersi y gall Cymru eu dysgu am bolisïau ac arferion cydraddoldeb rhywiol gan wledydd Nordig;
- Adolygiad o dystiolaeth am ddulliau effeithiol o gyllidebu ar sail rhyw.

Cyhoeddwyd ein **hadolygiad o bolisïau ac arferion cydraddoldeb rhywiol mewn gwledydd tramor** yn 2018 (Parken, 2018). Roedd yr adolygiad hwn yn dangos bod gwledydd Nordig yn arwain y ffordd ar weithredu polisiau a oedd yn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Yng ngolwg hynny, gofynnodd gweinidogion i'r Ganolfan hwyluso digwyddiad a fyddai'n galluogi swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod y dulliau hyn ag arbenigwyr academiaidd blaenllaw a llunwyr polisi uwch o wledydd Nordig.

O ganlyniad i hyn, cynhaliwyd 'Cyfnewidfa Nordig' ar 21 Chwefror 2019 a oedd yn ddigwyddiad bord gron gyda'r Dirprwy Weinidog Jane Hutt AC, uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, arbenigwyr o Wlad yr Iâ, Sweden, Denmarc a'r Ffindir, a chydweithwyr o Chwarae Teg a'r Ganolfan. Mae rhestr o'r cyfranogwyr yn Atodiad 1.

Roedd y digwyddiad wedi'i gynllunio a'r arbenigwyr wedi'u dewis ar sail adolygiad o'r llenyddiaeth academiaidd a pholisi a thrafodaethau manwl ag arbenigwyr mewn nifer o feysydd. Roedd y rhain wedi amlygu pedwar pwnc allweddol a oedd yn neilltuo o berthnasol i'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru ac wedi ein galluogi i bennu cyfuniad o arbenigwyr a fyddai rhyngddynt yn gallu ymdrin â'r pynciau allweddol hyn a chynnig gwybodaeth fanwl am bolisïau mewn nifer o wledydd.

Y pedwar maes roeddem wedi'u pennu ac wedi seilio'r drafodaeth arnynt oedd:

1. Beth a olygir wrth y term cydraddoldeb rhywiol a pha gynnydd y mae gwledydd Nordig wedi'i wneud tuag at ei gyflawni?
2. Pa bolisïau ac arferion a fabwysiadwyd gan wledydd Nordig i brif ffrydio rhywedd?
3. Sut mae gwledydd Nordig wedi gweithredu cyllidebu ar sail rhyw a pha ddulliau sydd wedi gweithio orau?
4. Sut mae gwledydd Nordig wedi mesur cynnydd ar sicrhau cydraddoldeb rhywiol?

Roeddem wedi comisiynu arbenigwyr i baratoi papurau briffio byr ar y rhain a gylchredwyd cyn y digwyddiad (eu cyhoeddi ar-lein) ac wedi gwahodd cyfranogwyr i gyflwyno datganiadau rhagarweiniol byr ar bob pwnc cyn agor pob sesiwn i drafodaeth ehangach. Er mwyn helpu i osod y trafodaethau hyn yng nghyd-destun Cymru, roeddem wedi gofyn am ddau gyfraniad rhagarweiniol, un gan y Dirprwy Weinidog, a agorodd y digwyddiad drwy roi trosolwg ar y cynnydd a gafwyd wrth hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru ac ar yr heriau sydd ar ôl y mae'n awyddus i'w hwynebu, ac un gan Brif Weithredwr Chwarae Teg, a roddodd drosolwg i'r cyfranogwyr ar yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol a gwaith Chwarae Teg ar gydraddoldeb rhywiol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r gwersi a rannwyd yn y digwyddiad. Er mwyn hwyluso trafodaeth agored a gonest am yr hyn sydd ac sydd heb weithio, cynhaliwyd y gweithdy yn unol â 'Rheol Chatham House' fel bod cyfraniadau wedi'u cofnodi heb eu priodoli, ac mae'r adroddiad hwn yn dilyn y confensiwn hwnnw.

Beth yw cydraddoldeb rhywiol a sut mae gwledydd Nordig yn ymdrin ag ef?

Y diffiniad o gydraddoldeb rhywiol gan y Grŵp Cyngorol ar yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru yw sefyllfa:

Ile mae pobl yn mwynhau'r un hawliau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol, adnoddau, cyfleoedd ac amddiffyniadau beth bynnag fo'u rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd neu fyneigiant rhywedd (Chwarae Teg, 2019).

Mae'r Grŵp Cyngorol yn dadlau bod angen gwneud y canlynol i sicrhau hyn:

ceisio delio â'r diffyg cydbwysedd o ran pŵer ac adnoddau y mae systemau seiliedig ar rywedd yn ei greu, sy'n atal canlyniadau cyfartal ... ar sail groestoriadol, gan gydnabod bod rhywedd bob amser yn rhyngweithio â'r holl ddimensiynau anghydraddoldeb eraill. (Ibid.)

Roedd pob un o'r gwledydd a oedd wedi'u cynrychioli yn ein digwyddiad bord gron wedi mynd ati mewn ffordd wahanol i ddiffinio a cheisio §sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Oherwydd hyn, ac yng ngolwg y materion a godwyd yn y papurau briffio byr cyn y digwyddiad a'r datganiadau rhagarweiniol, roedd y drafodaeth wedi canolbwyntio ar bedair thema gyffredinol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb rhywiol mewn gwledydd Nordig: deddfwriaeth; cydraddoldeb rhywiol fel gwaith sydd ar y gweill; trosglwyddo i gyd-destunau eraill; a chroestoriadedd.

Materion deddfwriaethol

Nododd arbenigwyr o wledydd Nordig fod eu profiad yn dangos bod angen deddfwriaeth gadarn i ategu ymdrechion i sicrhau mwy o gydraddoldeb rhywiol oherwydd gallai hyn gael ei israddio fel arall drwy newid llywodraeth. Roeddent yn awgrymu bod y ddeddfwriaeth sydd gan Gymru eisoes yn sylfaen dda ar gyfer hyn. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (a77), y Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol ar gyfer Cymru, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu hystyried yn ddeddfwriaeth flaengar ar lefel ryngwladol. Yr her yw sicrhau bod y bwriad sydd wedi'i ddangos yn y Deddfau hyn yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

Nid yw ymdrechion i sicrhau cydraddoldeb rhywiol byth yn dod i ben

Er bod gwledydd Nordig yn cael eu gweld gan lawer fel y rhai sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf ar sicrhau cydraddoldeb rhywiol (EIGE, 2017, Fforwm Economaidd y Byd, 2018), cafwyd rhybudd gan arbenigwyr ei fod yn waith sydd ar y gweill o hyd ac nad oes 'ateb sydyn' ar gael. Er enghraifft, mae Sweden wedi gweithio ar gydraddoldeb rhywiol dros y 40 mlynedd diwethaf, ond ceir anghydraddoldeb rhywiol o hyd mewn nifer o feysydd, yn enwedig yn y gweithle ac yn y rhaniad anghyfartal mewn gwaith gofal.

Cafwyd rhybudd hefyd gan arbenigwyr na ellir byth gymryd y gefnogaeth i gydraddoldeb rhywiol gan lywodraethau a chymdeithas ehangach yn ganiataol. Er bod hanes hir yn Sweden o hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, a chefnogaeth eang i hyn, roedd cynnydd y pleidiau poblyddol asgell dde yn yr etholiad cyffredinol yn 2018, ynghyd â thuedd at werthoedd mwy ceidwadol mewn disgwrs gwleidyddol ehangach ac ymysg poblogaeth Sweden, yn golygu bod bygythiad i gau'r Asiantaeth Cydraddoldeb Rhywiol newydd.

Mae'n bosibl na fydd modd atgynhyrchu polisiau ac arferion mewn gwledydd Nordig mewn cyd-destunau eraill

Mae systemau lles a marchnadoedd llafur y gwledydd Nordig yn wahanol i'r rhai yn y DU, ac mae pwerau gan eu llywodraethau sy'n hwyluso cydraddoldeb rhywiol. Mae nifer o'r pwerau hyn heb fod ar gael i Lywodraeth Cymru, yn cynnwys rhai pwerau codi treth.

Er enghraifft, mae model y system rhywedd unigol yn Sweden, sy'n darparu budd-daliadau ar sail yr unigolyn, gan gymell dynion a menywod i rannu dyletswyddau gofal plant ac felly roi mwy o gyfle i fenywod gael cyflogaeth am dâl, yn cael ei weld yn elfen allweddol yn y cynnydd a gafwyd yn Sweden ar sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â model system y penteulu sydd wedi'i seilio ar y rhaniadau llafur traddodiadol rhwng dynion a menywod a mynediad anghyfartal at fudd-daliadau, sef y llwybr a ddilynwyd yn hanesyddol yn y DU (Lewis, 1992).

Oherwydd hyn, nid oes 'glasbrint cydraddoldeb rhywiol' y gellir ei gymhwyso'n rhwydd mewn gwledydd eraill, gan fod pob gwlad wedi ystyried beth oedd yn bosibl ac yn fwyaf effeithiol iddi hi. Er enghraifft, prif ffrydio rhywedd (sydd wedi'i drafod ymhellach isod) yw'r brif strategaeth ar gyfer cyrraedd targedau polisi cydraddoldeb yn Sweden ond, er ei bod wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol yng Ngwlad yr Iâ, nid yw wedi'i gweithredu'n llawn yno eto. Felly mae

cydraddoldeb rhywiol yn cael ei weld yn gysyniad gwleidyddol 'penagored' sy'n 'teithio' rhwng gwahanol feysydd polisi, sefydliadau, a hyd yn oed wledydd (Callerstig, 2014).

Croestoriadedd

Y diffiniad o groestoriadedd gan Grŵp Cynghorol yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yw:

y ffordd y mae strwythurau pŵer seiliedig ar ffactorau fel rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oed a ffydd yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn creu mathau o anghydraddoldeb, gwahaniaethu a gormes ... Ni all ac ni ddylai un math o wahaniaethu gael ei ddeall ar wahân i un arall. Mae dull croestoriadol dilys yn sicrhau na fydd hyn yn digwydd. (Chwarae Teg, 2019)

Er bod perfformiad gwledydd Nordig ar fesurau o gydraddoldeb rhywiol yn gyson dda, dywedodd arbenigwyr fod angen iddynt roi mwy o sylw i groestoriadedd.

Mae cynnwys dinasyddion a chymdeithas sifil mewn gwaith cydraddoldeb rhywiol yn hanfodol i wneud cynnydd ar ddelio â chroestoriadedd, yn enwedig ymysg grwpiau na fydd cydraddoldeb rhywiol yn ymddangos yn berthnasol iddynt o reidrwydd. Cafwyd enghraifft gan un arbenigwr o awdurdod lleol a oedd am ddeall pam roedd ystadegau swyddogol yn dangos bod bechgyn yn llai tebygol na merched o fynd at y deintydd. Drwy ddadansoddi mwy manwl, cafodd wybod mai bechgyn o gefndiroedd lleiafrifol ethnig sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig a oedd yn lleiaf tebygol o fynd at y deintydd ac, mewn ymateb i hyn, ymdrechodd i gynyddu'r ymweliadau â'r deintydd gan y bechgyn hynny.

Pa bolisiau ac arferion i brif ffrydio rhywedd a fabwysiadwyd mewn gwledydd Nordig?

Mae 'prif ffrydio rhywedd' wedi'i ddiffinio fel a ganlyn:

'the mechanism by which, by taking gender into account at the formulation of policy and through each stage of the policy process, policy is made to promote equality' (Parker, 2018).

Gan mwyaf, mae gwledydd Nordig wedi gweithredu, neu geisio gweithredu¹, prif ffrydio rhywedd fel modd i geisio sicrhau cydraddoldeb rhywiol. At ei gilydd, maent wedi mabwysiadu strategaeth ddeuol i brif ffrydio rhywedd sy'n golygu ystyried cydraddoldeb rhywiol wrth ddatblygu pob polisi yn ogystal â llunio polisiau penodol i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.

Mae prif ffrydio rhywedd wedi'i ddefnyddio ar nifer o lefelau, yn cynnwys:

- y lefel wleidyddol – er enghraifft, yn strategaeth swyddogol Llywodraeth Sweden er 1993;
- y lefel leol – yn Sweden, mae rhanbarthau a bwrdeistrefi wedi mabwysiadu'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer Cydraddoldeb Menywod a Dynion mewn Bywyd Lleol (Cyngor Bwrdeistrefi a Rhanbarthau Ewrop, 2006);
- y lefel drefniadol – fel y dangoswyd ym menter Effaith Rhywedd yn y Gwaith y Cyngor Gweinidogion Nordig (Norden, 2019) ac mewn addysg uwch yn y canllawiau gan Sefydliad Cydraddoldeb Rhywiol Ewrop (EIGE, 2019a).

Roedd y drafodaeth yn y gweithdy wedi canolbwyntio'n benodol ar brif ffrydio rhywedd ar lefel wleidyddol, er bod nifer o'r egwyddorion dan sylw yn gymwys i gyflogwyr, yn cynnwys Llywodraeth Cymru.

Roedd arbenigwyr wedi nodi pum ffactor allweddol ar gyfer prif ffrydio rhywedd yn llwyddiannus:

- Newid diwylliant;
- Sefydlu perchnogaeth wleidyddol ar brif ffrydio rhywedd;
- Defnyddio asesiadau effaith ar sail rhyw;
- Buddsoddi mewn dulliau effeithiol ar gyfer meithrin gallu a hyfforddiant ar gyfer gwleidyddion a swyddogion;
- Gosod nodau effeithiol, mesur cynnydd ac ymrwymiad gwleidyddol.

Newid diwylliant

¹ Er enghraifft, mae Gwlad yr Iâ wedi mabwysiadu prif ffrydio rhywedd yn strategaeth swyddogol, ond nid oes tystiolaeth i awgrymu ei bod yn cael ei gweithredu – hynny yw, er bod rhywedd yn cael ei ystyried wrth ddatblygu rhai polisiau, nid yw hyn yn wir am bob polisi. Er hynny, mae Gwlad yr Iâ wedi llunio nifer o bolisiau penodol i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.

Mae nifer o lywodraethau Nordig yn wynebu bwlch rhwng polisi a gweithredu wrth brif ffrydio rhywedd, sy'n cael ei briodoli gan Alfama (2015) i alluedd cyfranogwyr. Mae dulliau newid ymddygiad yn gallu helpu i ddelio â hyn a sbarduno newid ehangach mewn sefydliadau.

Mae gosod cydraddoldeb rhywiol yng nghyd-destun ieithwedd tegwch a hawliau dynol yn gallu helpu i beri i gydraddoldeb rhywiol ymddangos yn fwy perthnasol a dealladwy. Mae termau penodol sy'n dangos at bwy yn union y mae polisi wedi'i anelu – h.y. nid 'myfyrwyr' neu 'bobl wedi ymddeol' yn gyffredinol – yn bwysig hefyd, yn ogystal â newid yr iaith a ddefnyddir yn ddiofyn ynghylch rhywedd. Yn Sweden mae'r llywodraeth yn cyfeirio'n fwriadol at 'fenywod a dynion' yn hytrach na 'dynion a menywod' i helpu i droi ffyrdd o feddwl oddi wrth normau patriarchaidd.

Mae gwledydd Nordig yn credu bod cydraddoldeb rhywiol yn ymwneud â mwy na materion menywod, ac roedd yr holl arbenigwyr yn cytuno na sicrheir cydraddoldeb rhywiol heb gynnwys menywod a dynion. Mae hyn hefyd yn golygu herio normau gwrywdod afiach sydd heb fod yn llesol i ddynion na menywod.

Bydd pobl yn ymateb yn fwy cadarnhaol i ddeialog adeiladol sy'n tynnu sylw at lwyddiannau yn hytrach na beirniadaethau a heriau. Er ei bod yn bwysig nodi lle gellir gwneud cynnydd, roedd arbenigwyr yn awgrymu y dylid canmol Llywodraeth Cymru a'i dathlu am ei hymrwymiad i geisio sicrhau cydraddoldeb rhywiol a'r ddeddfwriaeth effeithiol sydd ganddi ar gyfer meithrin cydraddoldeb rhywiol.

Mae tystiolaeth hefyd yn dangos nad yw adnoddau digonol yn cael eu darparu ar gyfer cydraddoldeb rhywiol mewn llawer achos a'i fod yn dibynnu ar bobl frwdfrydig sydd heb fawr o gyfle i ddylanwadu ar reolwyr uwch (Callerstig, 2014). Oherwydd prinder y menywod mewn swyddi arwain uwch – mewn llywodraeth ac mewn busnes – mae'n llai tebygol y bydd cydraddoldeb rhywiol yn cael ei weld yn flaenoriaeth. Ac mae'n bwysig bod gwleidyddion yn creu amgylchedd lle na fydd swyddogion yn ofni nodi lle byddai polisi yn gallu creu goblygiadau negyddol o ran cydraddoldeb rhywiol.

Mae cefnogaeth i gydraddoldeb rhywiol yn y cyfryngau yn y gwledydd Nordig yn helpu i hybu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb rhywiol ymysg y cyhoedd. Roedd trafodwyr wedi cyfeirio at y diffyg sylw i gydraddoldeb rhywiol yn y cyfryngau yng Nghymru. Rhoddodd un arbenigwr enghraifft o'r ffordd i gyfleu negeseuon am gydraddoldeb rhywiol er mwyn eu gwneud yn fwy deniadol i'r cyfryngau. Eglurodd sut roedd adroddiad am yr effaith gadarnhaol gan gyflogaeth menywod ar gynnyrch domestig gros wedi cael sylw gan y cyfryngau am fod y negeseuon yn yr adroddiad yn canolbwyntio ar y ffaith y byddai gan unigolion lai o arian yn eu pocedi oni bai am y cynnydd yng nghyflogaeth menywod.

Sefydlu perchnogaeth

Mae angen rhannu'r berchnogaeth ar brif ffrydio rhywedd rhwng pob lefel llywodraeth. Yn y rhan fwyaf o'r gwledydd Nordig, ceir swyddogion cydraddoldeb rhywiol penodedig ac mae rhai o'r gwledydd hyn wedi penodi Gweinidog Cydraddoldeb Rhywiol. Ond mae'n bwysig na fydd hyn yn golygu bod gwleidyddion a swyddogion eraill yn gweld cydraddoldeb rhywiol yn 'waith i rywun arall'. Mae rhywfaint o gyfrifoldeb am gydraddoldeb rhywiol gan bawb mewn llywodraeth, ar lefel genedlaethol a lleol, gan fod hyn yn effeithio ar bron pob maes polisi ac yn gyson â strategaeth i brif ffrydio rhywedd.

Yn Sweden a Gwlad yr Iâ, mae swyddogion cydraddoldeb rhywiol ar lefel genedlaethol (ac ar lefel ranbarthol yn Sweden) yn tueddu i gyfuno'r rôl â swyddi eraill, yn hytrach na chanolbwyntio ar gydraddoldeb rhywiol yn unig. Byddant yn cael hyfforddiant cydraddoldeb rhywiol, ond nid ydynt yn 'arbenigwyr cydraddoldeb rhywiol' o reidrwydd, ac nid yw'n ofynnol iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gydraddoldeb rhywiol ar eu pen eu hunain. Yn hytrach, mae'r holl swyddogion yn Sweden yn cael cyfrifoldeb dros ofalu am faterion cydraddoldeb rhywiol, er bod hyn yn dibynnu, ar lefel llywodraeth leol, ar ba un a yw rhanbarthau a bwrdeistrefi wedi dewis hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol neu beidio, er enghraifft, drwy lofnodi'r Siarter (Cyngor Bwrdeistrefi a Rhanbarthau Ewrop, 2006).

Asesiadau Effaith ar Sail Rhyw

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi diffinio Asesiad Effaith ar Sail Rhyw (AESRh) fel a ganlyn:

'the process of comparing and assessing, according to gender relevant criteria, the current situation and trend with the expected development resulting from the introduction of the proposed policy' (EIGE, 2019b).

Dywedodd ein harbenigwyr fod gwella AESRhau yn gallu galw am amser ac ymdrech sylweddol ac roeddent yn cydnabod bod lle mawr i wella AESRhau mewn gwledydd Nordig. Er hynny, maent yn arf pwysig ar gyfer prif ffrydio rhywedd.

Yn y Ffindir, disgwylir i swyddogion weithredu mewn ffordd syml gan dreulio ychydig o funudau wrth ddechrau llunio polisi newydd i ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r polisi hwn yn ymwneud â bywydau pobl?
- A fydd y polisi hwn yn cael effaith wahanol ar fenywod o'u cymharu â dynion?

Os rhoddir ateb cadarnhaol i'r naill neu'r llall o'r cwestiynau hyn, yna rhaid i swyddogion ystyried y goblygiadau dichonol o ran cydraddoldeb rhywiol, ac ysgrifennu memorandwm byr am yr hyn sy'n hysbys eisoes am y berthynas rhwng y maes polisi hwnnw a chydraddoldeb rhywiol, yn cynnwys pwyntiau a all ymddangos yn amlwg. Mae'r memorandwm hwn ar y

persbectif rhywedd i fod yn fyr a hawdd ei ddeall er mwyn galluogi penderfynwyr i fod yn ymwybodol o oblygiadau dichonol y polisi.

Ers ffurfio'r llywodraeth ffeministaidd gyntaf yn Sweden yn 2014, mae wedi bod yn ofynnol atodi AESRh i bob cynnig polisi newydd cyn ei gyflwyno i'r Weinyddiaeth Gyllid i ofyn am gyllid. Gan fod cynnal AESRh yn galw am wybodaeth am gydraddoldeb rhywiol, mae swyddogion yr Is-adran Cydraddoldeb Rhywiol yn cynnal gweithdai ar AESRhau ac yn gweithredu fel ymgynghorwyr mewnol er mwyn darparu cyngor a chymorth.

Er mwyn sicrhau bod AESRhau yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb rhywiol, mae'n bwysig bod camau'n cael eu cymryd i gydnabod unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd a delio â nhw (a'u cywiro) wedyn, os oes modd. Roedd yr arbenigwyr yn pwysleisio bod hyn yn golygu integreiddio'r persbectif rhywedd yn gynnar yn y broses llunio polisi. Mae AESRhau a gaiff eu datblygu'n hwyr yn gallu troi'n ymarfer biwrocraidd a chyfrannu at greu meddylfryd cydymffurfio.

Meithrin gallu a hyfforddi

Mae perchnogaeth hefyd yn golygu sicrhau bod swyddogion a gwleidyddion yn deall cydraddoldeb rhywiol a'i bwysigrwydd. Gan fod cydraddoldeb rhywiol yn gyfrifoldeb i bawb, mae rhagdybiaeth gudd yn codi bod pawb yn gwybod beth sydd ei angen. Mae diffyg gwybodaeth am gydraddoldeb rhywiol yn gallu bod yn rhwystr mawr rhag prif ffrydio rhywedd. Oherwydd hynny, mae gwledydd Nordig yn defnyddio gwahanol fodelau i hyfforddi gweision sifil a Gweinidogion ac yn darparu amrywiaeth o fodiwlau e-ddysgu ar-lein a hyfforddiant wyneb yn wyneb.

Ymhlith y dulliau eraill a geir yn y gwledydd Nordig y mae:

- 'Hyfforddwyr personol' cydraddoldeb rhywiol;
- Sesiynau ar gydraddoldeb rhywiol yn y rhaglen sefydlu i weision sifil newydd;
- Seminar hanner diwrnod ar gydraddoldeb rhywiol i Weinidogion newydd;
- Cyfarfodydd dwyochrog 30 munud o hyd rhwng swyddogion cydraddoldeb rhywiol a Gweinidogion;
- Gweithdai pwrpasol ar gyfer rhanddeiliaid allweddol.

Mewn cyfarfodydd dwyochrog bydd swyddogion cydraddoldeb rhywiol yn darparu trosolwg i'r Gweinidog ar gydraddoldeb rhywiol, ar berthnasedd ei bortffolio i gydraddoldeb rhywiol, a chynghor ar sut i ofyn i'w swyddogion ddarparu persbectif rhywedd ar ei waith. Felly bydd angen i swyddogion cydraddoldeb rhywiol wybod am gydraddoldeb rhywiol ac am y maes polisi penodol dan sylw. Mae'r cyfarfodydd unigol hyn â Gweinidogion yn gyfle i gael

trafodaeth onest ac i ofyn cwestiynau ‘amlwg’ na fyddent yn gyfforddus yn eu gofyn o flaen pobl eraill o bosibl.

Mae’n bwysig peidio â rhagdybio lefel y wybodaeth bresennol. Cynigiodd un arbenigwr enghraifft o Weinidog a oedd yn ffeminist cadarn ac yn gefnogol iawn i brif ffrydio rhywedd, ond nad oedd hyd yn oed wedi sylweddoli y dylai ofyn i swyddogion ddarparu persbectif cydraddoldeb rhywiol.

Yn ogystal â hyn, mae’n hanfodol bod yr hyfforddiant yn syml. Mae theori rhywedd yn gymhleth a gall fod yn anodd ei chyfleu. Felly bydd rhaglenni hyfforddi effeithiol yn canolbwyntio ar hanfodion hawdd eu deall. Bydd mesurau sy’n galluogi pawb i ofyn y cwestiynau ‘amlwg’, yn rhoi hwb i hyder pobl am eu gwybodaeth am gydraddoldeb rhywiol, ac yn lleddfu’r ofn o wneud camgymeriad yn gallu helpu i greu amgylchedd cefnogol ar gyfer prif ffrydio rhywedd. Rhaid i hyn fynd law yn llaw â dulliau newid ymddygiad sy’n troi pobl oddi wrth wneud pethau ‘fel maen nhw wedi gwneud erioed’.

Gosod nodau

Dywedodd arbenigwyr fod pennu set o nodau clir yn gynnar yn hollbwysig i wneud cynnydd ar gydraddoldeb rhywiol. Mae angen i nodau fod yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.

Mae Sweden wedi gosod nod polisi cyffredinol ar gyfer cydraddoldeb rhywiol – rhaid i fenywod a dynion fod â’r un pŵer i lunio cymdeithas a’u bywydau eu hunain – sy’n cynnwys chwe is-nod:

1. Rhannu pŵer a dylanwad yn gyfartal rhwng y rhywiau;
2. Cydraddoldeb rhywiol economaidd;
3. Addysg gyfartal ar sail rhyw;
4. Rhannu gwaith tŷ di-dâl a darparu gofal yn gyfartal rhwng y rhywiau;
5. Iechyd cyfartal ar sail rhyw;
6. Rhaid i drais dynion yn erbyn menywod ddod i ben.

Rhoddwyd mwy o flaenoriaeth i gyflawni’r nodau hyn drwy’r ymrwymiad gan lywodraeth 2014-2018 i fod yn llywodraeth ffeministaidd.

Mae’n bwysig cael dangosyddion ar gyfer y nodau (mae hyn wedi’i drafod yn ddiweddarach mewn perthynas â mesur cynnydd) yn ogystal â chyfarwyddiadau cam wrth gam i weision sifil a gwleidyddion ar sut i’w cyflawni, ynghyd â chymorth mewnol pwrpasol. Er enghraifft, mae llywodraeth Sweden yn cyflogi Cydgysylltwyr Prif Ffrydio Rhywedd ym mhob

Gweinyddiaeth sy'n gweithredu fel 'ymgynghorwyr cydraddoldeb rhywiol' mewnol i gynnig cyngor a chymorth ar brif ffrydio rhywedd.

Sut mae gwledydd Nordig wedi gweithredu cyllidebu ar sail rhyw a pha ddulliau sydd wedi gweithio orau?

Mae'r OECD wedi diffinio cyllidebu ar sail rhyw fel a ganlyn:

'integrating a clear gender perspective within the overall context of the budget process, through the use of special process and analytical tools, with a view to promoting gender responsive policies' (Downes et al., 2016).

Mae wedi'i gydnabod bod prosesau cyllidebol confensiynol yn cael eu hystyried yn niwtral o ran y rhywiau ond eu bod mewn gwirionedd yn arwain yn anfwriadol at benderfyniadau sy'n rhoi menywod a merched o dan anfantais. Mewn cyferbyniad â hyn, gellir defnyddio cyllidebu ar sail rhyw i wneud penderfyniadau gwahanol ar ddyrannu adnoddau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol (Sharp a Van Dev, 2004). Felly mae'n ffordd i sbarduno prif ffrydio rhywedd.

Mae pob gwlad Nordig wedi defnyddio dulliau cyllidebu ar sail rhyw i ryw raddau i geisio sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Fodd bynnag, gan fod pob gwlad wedi dilyn llwybr gwahanol, roedd y drafodaeth wedi troi at egwyddorion cyffredinol cyllidebu ar sail rhyw, yn cynnwys beth yw cyllidebu ar sail rhyw, llywodraethu cyllidebu ar sail rhyw, a rôl cymdeithas sifil. Mae eglurhad mwy manwl o ddulliau cyllidebu ar sail rhyw yn y gwledydd Nordig a gwledydd eraill mewn adolygiad o dystiolaeth am gyllidebu ar sail rhyw gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (O'Hagan, i ddod 2019).

Mwy na 'chyllidebau pinc a glas'

Nid yw cyllidebu ar sail rhyw yn ymwneud â 'chyllidebau pinc a glas', na sicrhau rhaniad cyfartal mewn cyllid rhwng dynion a menywod. Yn hytrach, dylid canolbwyntio wrth gyllidebu ar sail rhyw ar y canlyniadau i benderfyniad cyllido. Cynigiodd un arbenigwr enghraifft o'r

ffordd yr oedd llywodraeth leol wedi gwario mwy ar weithgareddau haf i fechgyn na'r rhai i ferched. Mae'n bosibl bod mwy o fechgyn nag o ferched yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau haf; efallai nad oedd merched yn gwybod am y gweithgareddau a oedd ar gael; efallai fod bechgyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau drutach. Mae'n bosibl bod rhesymau dilys dros rannu'r adnoddau yn anghyfartal, ond byddai hefyd wedi gallu hybu anghydraddoldeb. Felly, mae'n bosibl nad ceisio sicrhau rhaniad cyfartal yn y cyllid oedd y dull gorau o weithredu o reidrwydd; rhaid dadansoddi anghenion y rhywiau, perthnasoedd a normau wrth wneud penderfyniadau ar rannu adnoddau.

Llywodraethiant

Roedd arbenigwyr yn argymhell mai'r Weinyddiaeth Gyllid a ddylai fod yn gyfrifol am gyllidebu ar sail rhyw a bod angen integreiddio swyddogion penodedig a hyfforddwyd mewn cyllidebu ar sail rhyw yn y Weinyddiaeth. Mewn gwledydd lle mae Gweinidog Cydraddoldeb Rhywiol, bydd yn cydweithio'n agos â'r Gweinidog Cyllid.

Mae rhai gwledydd wedi cyflwyno cymhellion a/neu sancsiynau i hybu cyllidebu ar sail rhyw. Er enghraifft, roedd un arbenigwr wedi disgrifio'r broses o ddyrannu cyllidebau yn ei wlad lle mai dim ond meysydd polisi sydd wedi bod yn destun asesiad effaith ar sail rhyw a fydd yn eu derbyn. Mewn un rhanbarth, didynnir 5% o'r adnoddau a ddyrannwyd i adrannau os na fyddant wedi cwblhau asesiad effaith ar sail rhyw.

Cymdeithas Sifil

Er bod cyfrifoldeb sylfaenol gan lywodraeth i sicrhau ei bod yn dyrannu adnoddau mewn ffordd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, mae craffu gan gyrff allanol yn bwysig ar gyfer cyflwyno a gweithredu cyllidebu ar sail rhyw yn effeithiol. Gellir cael craffu gan bwyllgorau, ar yr amod eu bod wedi'u hyfforddi i graffu ar gyllidebau o safbwynt rhywedd, ond roedd arbenigwyr hefyd yn nodi'r rôl bwysig sydd gan gymdeithas sifil. Bydd cyllidebu ar sail rhyw yn fwyaf effeithiol lle mae pwysau allanol ar y llywodraeth ac felly rhaid cynnwys cymdeithas sifil, sy'n gallu gweithredu fel cyfaill beirniadol. Yng Ngwlad yr Iâ, er enghraifft, mae'r grŵp ymgyrchu Femínsk Fjármál wedi cael clod am ddal y llywodraeth yn atebol am ei hymdrechion ar gyllidebu ar sail rhyw.

Mae craffu allanol o'r fath yn galw am barodrwydd ar ran llywodraethau i fod yn dryloyw ynghylch penderfyniadau cyllidebu. Yn y DU, mae'r Grŵp Cyllideb Menywod yn darparu dadansoddiadau o gyllidebau o safbwynt rhywedd, ond nid yw'n cael cymorth gan lywodraeth ar gyfer y gwaith hwn ac nid yw'n gweithredu yng Nghymru erbyn hyn.

Sut mae gwledydd Nordig wedi mesur cynnydd ar sicrhau cydraddoldeb rhywiol?

Yn ogystal â gosod nodau (sydd wedi'i drafod uchod), roedd cyfranogwyr yn y digwyddiad bord gron yn cydnabod bod mesur cynnydd drwy gasglu tystiolaeth yn effeithiol, a'r gallu i ddadansoddi'r dystiolaeth honno er mwyn ei dehongli, yn hanfodol wrth geisio sicrhau cydraddoldeb rhywiol.

Tystiolaeth

Mae'r defnydd o dystiolaeth i fonitro a gwerthuso cydraddoldeb rhywiol yn waith hanfodol ond ymestynnol. Gall sgorau rhyngwladol (Fforwm Economaidd y Byd, 2018) ac Ewropeaidd (EIGE, 2017) fod yn feincnodau defnyddiol, ond mae angen data dibynadwy wedi'u dadgyfuno ar sail rhyw a thystiolaeth ansoddol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddangos y cynnydd ar lefel fanwl at gyflawni'r nodau cydraddoldeb rhywiol a osodwyd gan lywodraeth a gwella gwasanaethau.

Yn ogystal â hyn, mae dulliau croestoriadol yn galw am ddata sydd wedi'u rhannu nid yn unig ar sail rhyw, ond hefyd ar sail categorïau eraill fel dosbarth a hil. Yr her mewn gwlad o faint Cymru yw'r posibilrwydd na fydd modd dod i gasgliadau am arwyddocâd ystadegol ar sail samplau bach. Mae ffigurau cyfartalog yn gallu cuddio anghydraddoldebau hefyd. Ar ben hynny, nid yw Cymru, yn wahanol i rai o'r gwledydd Nordig, yn defnyddio dynodydd personol sengl (rhif a roddir ar enedigaeth), fel ei bod yn anodd cysylltu data ar draws gwasanaethau. Yn ogystal â hyn, gellir cael sensitifrwydd ynghylch rhyddhau data a gwrthwynebiad i hynny gan y rheini sy'n eu casglu, yn enwedig os ydynt yn dangos anghydraddoldebau.

Yn Sweden, mae'r asiantaeth ystadegau annibynnol² (Statistics Sweden) yn gyfrifol am fonitro a chyhoeddi cynnydd ar y 170 o ddangosyddion ar gyfer y chwe is-nod cydraddoldeb rhywiol. Mae'r dangosyddion hyn yn cael eu gosod gan yr asiantaeth, nid gan lywodraeth, ac nid yw llywodraeth yn gallu ymyrryd â phennu'r dangosyddion hynny. Caiff yr adroddiadau eu diweddarau ddwywaith y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, mae llywodraeth yn adrodd i'r senedd bob blwyddyn ym mesur y gyllideb ar gynnydd ar sail dangosyddion craidd penodol. Hefyd

² Un o asiantaethau'r llywodraeth yw hon, ond mae'n annibynnol i'r graddau ei bod hi, fel holl asiantaethau'r llywodraeth yn Sweden, yn cael ei gwarchod gan y gwaharddiad cyfansoddiadol ar reoli gan weinidogion.

bydd yr asiantaeth yn cyhoeddi data yn rheolaidd ar gydraddoldeb rhywiol ar lefel genedlaethol a lleol, mewn llyfrynau deniadol sy'n cael sylw helaeth yn y cyfryngau (Statistics Sweden, 2018). Mae'r Asiantaeth Cydraddoldeb Rhywiol newydd yn Sweden wedi'i sefydlu i gydgyssylltu a chadw golwg ar bolisiau cydraddoldeb rhywiol, ac i ddarparu gwahanol fathau o gymorth i sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i seilio ar ddata a ddarparwyd gan Statistics Sweden.

Gallu dadansoddol

Mae'n bwysig bod gallu ar gael i ddadansoddi tystiolaeth a deall yr hyn y mae data yn ei olygu o ran polisi cyhoeddus. Cynigiodd un arbenigwr enghraifft o'r angen i allu dehongli ystadegau'n gywir mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod. Byddai cynnydd yn nifer y digwyddiadau a gofnodwyd yn gallu cael ei ddehongli ar yr olwg gyntaf yn arwydd bod polisiau i leihau trais yn methu. Ond byddai dadansoddi pellach yn gallu dangos bod menywod yn dod yn fwy parod i roi gwybod am ddigwyddiadau a'u bod yn fwyfwy hyderus o allu'r system i fynd i'r afael â'r broblem pan fyddant yn gwneud hynny.

Pa wersi y gall Cymru eu dysgu gan y gwledydd Nordig?

Fel y nodwyd uchod, camgymeriad fyddai tybio bod modd i'r hyn a weithiodd yn y gwledydd Nordig gael ei drosglwyddo'n llwyddiannus i Gymru. Mae pob gwlad Nordig wedi datblygu ei dull unigryw ei hun, wedi'i addasu yn ôl ei huchelgeisiau polisi a'r hyn sy'n ddichonol yn wledyddol ac yn ddiwylliannol, a bydd angen i Gymru wneud yr un peth. Er hynny, roedd y drafodaeth yn cynnig rhai gwersi gwerthfawr i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru.

- **Bod yn ymarferol a gosod nodau cyraeddadwy** – mae Cymru wedi deddfu i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Yr her yn awr yw sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn sbarduno newid yn y modd a fwriadwyd. Mae'r profiad mewn gwledydd Nordig yn awgrymu na fydd y gwaith o brif ffrydio rhywedd byth yn dod i ben ond bod gosod nodau cyraeddadwy a mesur y cynnydd ar eu cyflawni yn gallu creu momentwm a hyder bod newid yn bosibl.
- **Cynnwys cydraddoldeb rhywiol ar ddechrau'r broses polisi** – mae'n haws cynnwys persbectif rhywedd ar ddechrau'r broses polisi, gan elwa o'r gwersi a ddysgwyd yn barod. Bydd hyn yn galw am hyfforddi swyddogion. Gallai Llywodraeth Cymru wneud y cynnydd mwyaf drwy gynnwys prif ffrydio rhywedd mewn penderfyniadau newydd yn hytrach na cheisio ei gymhwyso at bolisiau sydd wedi'u llunio eisoes.

- **Ymdrin â chydaddoldeb rhywiol drwy ddull croestoriadol** – mae gwledydd Nordig wedi bod ar ôl wrth fabwysiadu dull croestoriadol o ymdrin â chydaddoldeb rhywiol, a gall fod yn fwy anodd gwneud hyn ar ôl dechrau rhoi strategaethau cydraddoldeb rhywiol ar waith. Mae cyfle gan Lywodraeth Cymru i gynnwys dull croestoriadol yn ei gwaith o hyn ymlaen.
- **Dathlu llwyddiant** – roedd arbenigwyr o'r gwledydd Nordig yn canmol yr ymrwymiad gwleidyddol yng Nghymru i gydraddoldeb rhywiol a'r parodrwydd i geisio dysgu gwersi o leoedd eraill. Roeddent yn pwysleisio bod y bwriad hwn, yn ogystal â'r cynnydd a wnaed eisoes, yn ganmoladwy ac yn werth ei ddathlu.
- **Cymell yr ymddygiadau cywir** – mae'n bwysig ennill cefnogaeth drwy ddarbwyllw gwleidyddion a swyddogion o'r buddion a geir o gydraddoldeb rhywiol, gan ddangos iddynt sut mae'n gallu helpu i gyrraedd nodau mewn meysydd eraill (fel llesiant, addysg, neu ofal cymdeithasol), a'u cymell i gredu bod modd cymryd camau cadarnhaol i'w gyflawni. Mae hon yn strategaeth newid sy'n fwy effeithiol o lawer na chanolbwyntio ar y diffygion a chosbi pobl am fethu â gweithredu.
- **Mabwysiadu prif ffrydio rhywedd ar bob lefel o lywodraeth** – mae'n bwysig darbwyllo awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill o werth cydraddoldeb rhywiol yn hytrach na dim ond gosod dyletswyddau newydd arnynt. Mae hyn wedi llwyddo yn Sweden, lle mae awdurdodau lleol yn cael eu gwahodd yn hytrach na'u gorfodi i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol drwy lofnodi'r Siarter (Cyngor Bwrdeistrefi a Rhanbarthau Ewrop, 2006).
- **Buddsoddi i feithrin gallu mewn gwleidyddion a swyddogion** – mae'r profiad mewn gwledydd Nordig yn dangos pa mor bwysig yw hybu ymwybyddiaeth a hyfforddiant er mwyn galluogi llunwyr polisi – ar lefel genedlaethol a lleol – i ddatblygu a gweithredu polisiau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.
- **Ymgysylltu y tu allan i lywodraeth** – mae cynnydd ar sicrhau cydraddoldeb rhywiol yn galw am newidiadau sylfaenol mewn cymdeithas, ac mae pen draw i'r hyn y gall llywodraethau ei gyflawni drwy weithio ar eu pen eu hunain. Felly mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, busnesau, y cyfryngau ac eraill er mwyn gwneud cynnydd ar sicrhau cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru. Mae angen i lunwyr polisi ystyried sut y gallant ddefnyddio eu pwerau ffurfiol a'u hadnoddau a'u 'pŵer meddal' a'u dylanwad anffurfiol i sbarduno cefnogaeth i gamau gweithredu sy'n hyrwyddo cydraddoldeb.

Cyfeiriadau

Alfama, E.G. (2015). **Mapping Gender Mainstreaming Implementation Challenges**. 4th European Conference on Politics and Gender. Uppsala.

Callerstig, A.C. (2014). **Making equality work: Ambiguities, conflicts and change agents in the implementation of equality policies in public sector organisations**. PhD, Prifysgol Linköping.

Cyngor Bwrdeistrefi a Rhanbarthau Ewrop (2006). **The European Charter for Equality of Women and Men in Local Life**. Innsbruck.

Chwarae Teg (2019). **Gender Equality Review Phase Two, Outcome One: Develop a vision and shared language for gender equality in Wales and define what a feminist government looks like**.

Downes, R., Von Trapp, L. a Nicol, S. (2016). **Gender Budgeting in OECD Countries**. OECD Journal on Budgeting, 16, 1-37.

EIGE (2017). **Gender Equality Index 2017**. Adalwyd o: <https://eige.europa.eu/gender-equality-index>.

EIGE (2019a). **Gender Equality in Academia and Research**. Adalwyd o: <https://eige.europa.eu/gender-mainstreaming/toolkits/gear>.

EIGE (2019b). **Gender Impact Assessment**. Adalwyd o: <https://eige.europa.eu/gender-mainstreaming/toolkits/gender-impact-assessment/what-gender-impact-assessment>.

Fforwm Economaidd y Byd (2018). **The Global Gender Gap Report 2018**. Adalwyd o: http://www3.weforum.org/docs/WEF_GGGR_2018.pdf.

Lewis, J. (1992). **Gender and the Development of Welfare Regimes**. Journal of European Social Policy, 2, 159-173.

Norden (2019). **The Nordic Gender Effect at Work**. Adalwyd o: <https://www.norden.org/en/nordic-gender-effect-work>.

O'Hagan, A. (i ddod, 2019). **Tackling Inequalities Through Gender Budgeting: Evidence and Models**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Parken, A. (2018). **Putting equality at the heart of decision-making – Gender Equality Review (GER) Phase One: International Policy and Practice**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o: <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Putting-equality-at-the-heart-of-decisionmaking-corrected-final.pdf>.

Sharp, R. a Van Dev, S. (2004). **Bridging the Gap Between Gender Analysis and Gender-Responsive Budgets: Key Lessons from a Pilot Project in the Republic of the Marshall Islands.** Magill: Hawke Research Institute, University of South Australia.

Statistics Sweden (2018). **Women and men in Sweden 2018: Facts and figures.** Stockholm: Statistics Sweden.

Atodiad 1: Cyfranogwyr

Cyfranogwr	Sefydliad
Neil Buffin	Llywodraeth Cymru
Anne-Charlott Callerstig	Prifysgol Örebro
Line Christmas Møller	NORDEN
Rae Cornish	Llywodraeth Cymru
Jo-Anne Daniels	Llywodraeth Cymru
Alyson Francis	Llywodraeth Cymru
Cerys Furlong	Chwarae Teg
Joanne Glenn	Llywodraeth Cymru
Jane Hutt AC	Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip
Magnus Jacobson	Cymdeithas Awdurdodau Lleol a Rhanbarthau Sweden
Amelia John	Llywodraeth Cymru
Glyn Jones	Llywodraeth Cymru
Helen Lentle	Llywodraeth Cymru
Steve Martin	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Hanna Onwen-Huma	Llywodraeth y Ffindir
Finnborg Salome Steinpórsdóttir	Prifysgol Gwlad yr Iâ
Herdís Sólborg Haraldsdóttir	Llywodraeth Gwlad yr Iâ
Emma Taylor-Collins	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Matthew Wellington	Llywodraeth Cymru
Elisabeth White	Llywodraeth Sweden

Atodiad 2: Sylwedyddion

Sylwedydd	Sefydliad
Natasha Davies	Chwarae Teg
Hannah Durrant	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Suzanna Nesom	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Alison Parken	Prifysgol Caerdydd
Amanda Stokes	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Helen Tilley	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Manylion yr Awduron

Mae **Emma Taylor-Collins** yn Uwch Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Suzanna Nesom** yn Gynorthwydd Ymchwil ar Brentisiaeth yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

OGL Trwyddedwyd yr adroddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored